YSGOL GYNRADD GYMRAEG Y LOGIN FACH
Heol Roseland, Waunarlwydd, Abertawe SA5 4ST

FFÔN / TELEPHONE: 01792 874399
E-BOST / E-MAIL: ygg.loginfach@swansea-edunet.gov.uk
GWEFAN / WEBSITE: www.yloginfach.co.uk
TRYDAR / TWITTER: @LoginFach

***13/1/2025***

**Yr wythnos yma yn Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach**

*This week at Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach*

| | |
|---|---|
| **Dydd Llun** / *Monday* **13/1/25** | **Gwersi Cymraeg i Rhieni /** Welsh Lessons for Parents |
| **Dydd Mawrth /** *Tuesday* **14/1/25** | **Gwersi Drymiau /** Drum Lessons |
| **Dydd Mercher /** *Wednesday* **15/1/25** | **Gwersi Gitar a Iwcalili** / Guitar and Ukulele Lessons |
| **Dydd Iau** / *Thursday* **16/1/25** | **Bl4 Nofio (bore) /** Yr 4 Swimming (morning)<br><br>**Bl2 – sesiwn diogelwch ffordd Kerbcraft** / Yr2 – Kerbcraft road safety session<br><br>**Gwersi Telyn (prynhawn) /** Harp Lessons (afternoon) |
| **Dydd Gwener /** Friday **17/1/25** | / |

- **Disgyblion Meithrin prynhawn: Mae hi wedi bod yn wythnos gyntaf brysur iawn o'r tymor gyda ni'n croesawu plant newydd i'n dosbarth Meithrin prynhawn. Estynnwn groeso cynnes i holl deuluoedd newydd yr ysgol.**
- **Clybiau ar ôl ysgol: Yn anffodus mae angen i ni ohirio dechreuad y clybiau nes wythnos nesaf, yr wythnos yn dechrau 20/1/25.**
- **Llywodraethwyr: Yn dilyn y cais am riant lywodraethwr cyn y Nadolig, hoffwn eich hysbysu bod Dr Emma Chapman (mam Ned ym Mlwyddyn 1 ac Eric yn y dosbarth**

- Afternoon Nursery pupils: It has been a very busy first week of term with us welcoming new children into our afternoon Nursery class. We extend warm welcome to all the new families at school.
- After school clubs: Unfortunately, we must postpone the start of the clubs until next week, the week starting 20/1/25.
- Governors: Following the request for a parent governor before Christmas, I would like to inform you that Dr Emma Chapman (mother of Ned in Yr1 and Eric in our

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG Y LOGIN FACH

Heol Roseland, Waunarlwydd, Abertawe SA5 4ST

FFÔN / TELEPHONE: 01792 874399
E-BOST / E-MAIL: ygg.loginfach@swansea-edunet.gov.uk
GWEFAN / WEBSITE: www.yloginfach.co.uk
TRYDAR / TWITTER: @LoginFach


**Meithrin prynhawn) wedi ei phenodi ac estynnwn groeso mawr iddi wrth ymuno â'r Corff Llywodraethwyr.**

- **Yn fuan yr wythnos nesaf bydd taflen yn dod adref gyda plant y Derbyn i Fl6 yn dangos canran presenoldeb eich plentyn yn Nhymor yr Hydref.**
  **Wrth gwrs, gan mai dim ond tymor sydd wedi bod, mae pob dydd o absenoldeb yn cael mwy o effaith ar y canran hwn na fydd yn hwyrach yn y flwyddyn ysgol. Hoffem hefyd bwysleisio nad ydyn yn disgwyl i chi fod yn danfon eich plentyn i'r ysgol yn sâl, ond cymerwch i ystyriaeth hanes presenoldeb eich plentyn wrth gysidro trefnu gwyliau ac ati os gwelwch yn dda.**

- **Mae ein cymdogion o gwmpas yr ysgol yn pryderu am y sefyllfa parcio ar ddiwedd y dydd wrth i chi gasglu'ch plant. Gofynnwn yn garedig i chi ystyried ein cymdogion tra'n parcio gan geisio osgoi parcio o flaen dreifiau, ar gyffyrdd ac ar y pafin. Diogelwch ein plant yw'n blaenoriaeth, tra'n ystyried pawb. Diolch am eich cydweithrediad.**


- **Gweler y poster isod yn cynnig cyfleoedd i rhieni a phlant 8 oed a mwy.**

afternoon Nursery class) has been appointed and we extend her a warm welcome as she joins the Governing Body.

- Early next week a sheet will come home with all pupils from Reception to Yr6 showing your child's percentage attendance for the Autumn Term.
  As the figure relates to a term only, the effect of each individual day's absence on the percentage is of course higher than it will be further into the school year. We'd also like to emphasise that we would never expect you to send your children to school if they are unwell, but please bear in mind your child's attendance record when considering booking holidays etc.

- Our neighbours around the school have expressed concerns about the parking situation at the end of the day as you pick up your children. We kindly ask you to consider our neighbours while parking by avoiding parking in front of driveways, parking on junctions and on the pavements. The safety of our children is our priority, whilst considering others. Thank you for your cooperation.

- Please see the poster below for parents and pupils aged 8+.



# YSGOL GYNRADD GYMRAEG Y LOGIN FACH

Heol Roseland, Waunarlwydd, Abertawe SA5 4ST

FFÔN / TELEPHONE: 01792 874399
E-BOST / E-MAIL: ygg.loginfach@swansea-edunet.gov.uk
GWEFAN / WEBSITE: www.yloginfach.co.uk
TRYDAR / TWITTER: @LoginFach


- **Dyddiadau i'r calendr:**
  - **24.1.25: Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd – Eisteddfod yr Urdd 2025**
  - **29.1.25: Disgo Dwynwen (ar ôl ysgol)**
  - **21.2.25: Diwrnod HMS – dim ysgol i blant**

- **Cofiwch wirio'r calendr ar wefan yr ysgol. https://www.yloginfach.co.uk/**

- **Bwydlen dyddiol y cinio ysgol – Gwiriwch hyn yn aml a thrafodwch yr opsiynau gyda'ch plentyn:** **https://www.swansea.gov.uk/primaryschoolmenuprintversion**

- Dates for the calendar:
  - 24.1.25: Red, White and green day – Eisteddfod yr Urdd 2025
  - 29.1.25: Dwynwen Disco (after school)
  - 21.2.25: INSET day – no school for pupils

- Remember to check the school website for updates to the calendar. https://www.yloginfach.co.uk/

- Daily lunch options link: Please check this and discuss the options with your child: https://www.swansea.gov.uk/primaryschoolmenuprintversion

**Mwynhewch y penwythnos /** Enjoy the weekend

**Yn ddiffuant** / *Yours faithfully,*

**Mrs Katrin Parkhouse,**

**Pennaeth** / *Headteacher*